EISTEDDFOD 2025

## 159. UNAWD CERDD DANT 12 AC O DAN 16 OED

## DIGON I MI

**Mae rhai yn ceisio gwynfyd
Wrth deithio draws y byd,
A chyfrinachau'r hollfyd
Sy'n destun sgwrs o hyd.
Er gweled rhyfeddodau
Mewn myrdd o wledydd pell,
Fe welant wlad eu tadau
Lawn cystal, os nad gwell.**

**Cysgodion hwyr ar Fenai
Yn gryndod yn y dŵr,
A Phenrhyn Gŵyr a'r traethau
Sy'n denu'n ddigon siŵr.
Dirgelwch mud Cwm Tydu;
Hudoliaeth Tal y Llyn;
Yr haul yn goch dros Enlli;
A'r holl garneddau'n wyn.**

**Y draethell ger Llandanwg:
Hen chwedlau ym mhob man,
Cyfaredd Bro Morgannwg,
Tangnefedd Llyn y Fan;
Porthgain ac Abereiddi
Llyn Elan lân ei li;
Hon ydyw'r wlad a garaf
A digon hyn i mi.**

**RHYS JONES**